cyfnewidcymru™
xchangewales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyflwyniad i cyfnewidcymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn newid y ffordd mae caffael yn cael ei wneud yng Nghymru – cyflwynwyd cyfnewidcymru er mwyn bod yn fwy effeithlon wrth gaffael ac ysgogi mwy o gydweithredu rhwng cwsmeriaid a chyflenwyr.

Mae gan y rhaglen cyfnewidcymru, a gyflwynwyd yn 2008, darged o sicrhau arbedion gwerth hyd at £200 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd. Eisoes, llwyddwyd i arbed £10.89 miliwn[1] yn y flwyddyn gyntaf, sydd ymhell dros y targed o £8.4 miliwn. Gall yr holl arbedion hyn gael eu hailfuddsoddi yn economi Cymru er budd holl drigolion Cymru.

Casgliad o offer electronig yw cyfnewidcymru ynghyd â gwasanaethau diogel ar y we a gynlluniwyd i gefnogi a gwella'r broses gaffael yn ei chyfanrwydd. Bydd eGaffael yn galluogi sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau, eu harchebu a thalu amdanynt a hynny ar-lein. Bydd hynny'n ei gwneud hi'n gynt, yn haws ac yn rhatach i gyflenwyr fasnachu gyda'u cwsmeriaid yn y sector cyhoeddus a gall hefyd helpu i gyflymu'r broses o dalu cyflenwyr. Ar y tudalennau canlynol ceir braslun o nwyddau a gwasanaethau cyfnewidcymru.

"Rydym yn gwybod nad oes modd i eGaffael gael ei gyflenwi drwy dechnoleg yn unig. Dim ond wrth i ni gydweithio gyda'n gilydd, cydweithredu gyda phartneriaid, safoni prosesau busnes a sefydlu diwylliant o newid busnesau yn sylweddol y gellir gwneud hynny. Yr her sy'n ein hwynebu ni yn y sector cyhoeddus yw sut i gymryd rhywbeth a ymddengys yn aml fel proses dechnegol [*caffael cyhoeddus*] a'i ddefnyddio i ysgogi gwasanaethau cyhoeddus gwell, gan arbed arian ar gyfer y cyhoedd yr un pryd."

Andrew Davies AC.
Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus,
Cynhadledd cyfnewidcymru Hydref 2008

[1] Cyfrifwyd yr arbedion yn ôl y sefyllfa ym mis Ebrill 2009. Data o'r rhaglen Benefits Reporting Master Ebrill 2009

www.prynwchigymru.co.uk

PrynwchiGymru yw'r wefan gaffael genedlaethol ar gyfer Cymru ac fe'i cynlluniwyd i gael ei defnyddio gan sefydliadau sector cyhoeddus Cymru. Gall unrhyw sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru gofrestru ar-lein a hysbysebu unrhyw gontractau sydd ganddynt ar y gweill a hynny gerbron cronfa ddata genedlaethol a rhyngwladol fawr o gyflenwyr cofrestredig.

Gall prynwyr ddefnyddio'r cyfleuster Cais am Ddyfynbris i dderbyn dyfynbrisiau yn electronig gan gyflenwyr. Bydd defnyddio system ar-lein yn hytrach na system bapur yn gostwng y costau gweinyddu a'r costau trosglwyddo ar gyfer prynwyr a chyflenwyr. Yn ogystal, bydd yn golygu defnyddio llawer llai o adnoddau megis adnoddau postio, argraffu a phapur.

Gellir sicrhau arbedion pellach oherwydd bod dogfennau tendro yn gallu cael eu rhoi ynghlwm wrth Hysbysiadau y mae cyflenwyr wedyn yn gallu'u lawrlwytho. Ers ei lansio yn 2003, mae cyfleoedd busnes gwerth dros £8 biliwn wedi'u hysbysebu. Gellir defnyddio'r safle yn rhad ac am ddim ac mae'r broses gofrestru yn hawdd a chyflym. Nid yw cyflenwyr yn gallu cael mynediad i'r safle.

www.gwerthwchigymru.co.uk

Fersiwn o wefan gaffael genedlaethol Cymru ar gyfer y cyflenwr yw GwerthwchiGymru; mae'n safle cydnabyddedig sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar y wefan hon gall cyflenwyr cofrestredig weld ac ymateb i'r cyfleoedd contract y mae sector cyhoeddus Cymru yn eu cyhoeddi ar eu gwefan hwy, PrynwchiGymru.

Bydd angen i gyflenwyr gofrestru'u manylion a'u proffil ar GwerthwchiGymru. Bydd hyn yn eu galluogi i dderbyn negeseuon e-bost yn eu hysbysu am gyfleoedd perthnasol. Mae cyflenwyr yn gallu gweld dyddiadau adnewyddu contract, y dyddiadau cau ar gyfer tendro, y statws a'r sail resymegol dros ddyfarnu'r contract yn y pen draw. Gellir defnyddio'r safle 24 awr y dydd. Mae dros 40,000 o gyflenwyr wedi cofrestru ar y safle ac mae 159 o gyfleoedd busnes ar gyfartaledd yn cael eu hysbysebu bob mis. Mae'n wasanaeth cwbl ddi-dâl ar gyfer cyflenwyr.

eGyrchu

Cyfres o offer ar-lein a gynlluniwyd i wneud y broses dendro yn gyflymach, yn fwy slic ac yn fwy effeithlon. Trwy fabwysiadu eGyrchu, mae gweithwyr caffael a'u cyflenwyr yn gallu lleihau'n sylweddol faint o amser a phapur y maent yn eu defnyddio o'i gymharu â defnyddio gweithdrefnau traddodiadol â llaw.

Mae'r offer sydd ar y we yn caniatáu i brynwyr a chyflenwyr gynnal eu holl weithgareddau cyrchu mewn amgylchedd ar-lein diogel – o dendro a gwerthuso ar y cyd i reoli contractau a gwerthwyr. Mae'r ffaith eu bod ar ffurf modiwlau yn golygu y gellir eu defnyddio'n unigol neu mewn unrhyw gyfuniad yn ôl yr angen. Yn ogystal cefnogir yr holl gynhyrchion gan gronfa ddata wybodaeth gynhwysfawr ar-lein a phecynnau hyfforddi a hunan-gymorth sy'n hawdd eu defnyddio. Mae'r offer yn annog gweithwyr caffael i fod yn fwy effeithlon, cydymffurfio'n fwy a sicrhau mwy o reolaeth, ac ar yr un pryd yn ysgogi arferion gorau o ran caffael.

eFasnachu

System ddiogel ar-lein yw eFasnachu a gynlluniwyd i'w defnyddio gan sefydliadau sector cyhoeddus Cymru a'u cyflenwyr. Mae prynwyr yn gallu masnachu'n electronig gyda'u cyflenwyr cofrestredig – gellir ei gymharu â defnyddio safle tebyg i Amazon.

Gofynnir i gyflenwyr restru eu cynhyrchion ar-lein, naill ai fel eitemau llinell, catalogau ar-lein neu drwy ddarparu dolen i'w gwefannau efasnach. Mae prynwyr o sector cyhoeddus Cymru yn gallu archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau ar-lein – gall eu cyflenwyr drosglwyddo'u gwybodaeth yn uniongyrchol o'r archebion prynu i archebion electronig. Gellir lleihau'r broses fasnachu, gan gynnwys amseroedd talu, ynghyd â lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd o wneud camgymeriadau.

Un o fanteision ychwanegol eFasnachu yw ei fod yn rhoi mynediad hawdd i wybodaeth rheoli caffael. Bydd hyn yn caniatáu i sefydliadau adolygu a dadansoddi tueddiadau caffael a gwneud penderfyniadau ystyrlon mewn perthynas â'u strategaethau caffael.

Cerdyn Pryniant Cymreig

Cerdyn talu rhwng busnes a busnes arall yw'r Cerdyn Pryniant Cymreig sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru. Caiff taliadau'r Cerdyn Pryniant Cymreig eu prosesu drwy systemau a therfynellau cerdyn presennol y cyflenwyr.

Mae'r cerdyn ar gael yn rhad ac am ddim i sefydliadau, beth bynnag fo eu maint a chaiff ei dderbyn gan amrywiaeth eang iawn o gyflenwyr. Nid oes rhaid cael ffurflen brynu nac ychwaith archeb brynu i dalu am nwyddau neu wasanaethau gan ddefnyddio'r cerdyn hwn. Yn ogystal, mae'n cael gwared ar y broses o anfon anfoneb ar wahân ar gyfer pob archeb - dim ond un taliad misol i'r banc sydd ei angen.

Mae'r cerdyn hefyd o fantais i gyflenwyr, maent yn cael eu talu'n gyflym o fewn 3 neu 4 diwrnod. Mae'n fanteisiol i gyflenwyr mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy leihau costau gweinyddol a sicrhau statws fel cyflenwr o ddewis.

Braslun o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir gan cyfnewidcymru yw hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

www.xchangewales.co.uk

neu anfonwch e-bost i:

xchangewales@wales.gsi.gov.uk

E6410910

Hydref 2009